



## COFNOD O BENDERFYNIAD BRYG GAN ARWEINYDD Y CYNGOR, Y CYNGHORYDD A MORGAN

(Yn unol ag Adran 3A (3) o Ran 3 (paragraff 3) o Gyfansoddiad y Cyngor.

PWNC: Cludo Disgyblion i'r Ysgol (Cludiant Ysgol-Cartref)

### PENDERFYNIAD:

Ar 8 Medi 2015, yn dilyn proses ymgynghori helaeth, cymerodd y Cabinet y penderfyniad canlynol mewn perthynas â pholisi Cludo Disgyblion (Cludiant Ysgol-Cartref) y Cyngor: -

"Bod meini prawf cymhwysedd presennol y Cyngor mewn perthynas â phellter ar gyfer Cludiant Ysgol-Cartref yn parhau mewn grym, ond bod holl elfennau dewisol y ddarpariaeth fel sydd wedi'u nodi yn yr Hysbysiad o Benderfyniad, yn destun tâl, ond bydd yn parhau i fod yn wasanaeth â chymhorthdal." (Mae modd gweld manylion llawn Hysbysiad o Benderfyniad y Cabinet trwy glicio ar y cyswllt isod) –

(<http://www.rctcbc.gov.uk>

[EN/Council/CouncillorsCommitteesandMeetings/Meetings/Cabinet/2015/09/08/CabinetO8Sep2015.aspx](http://www.rctcbc.gov.uk/EN/Council/CouncillorsCommitteesandMeetings/Meetings/Cabinet/2015/09/08/CabinetO8Sep2015.aspx))

Mae penderfyniadau sy'n ymwneud â newidiadau i wasanaethau yn ddadleuol erioed, ac rydyn ni bob amser wedi pwysleisio nad ydyn nhw'n benderfyniadau roedden ni, y Cabinet, eisiau'u gwneud ond wedi'u gwneud o reidrwydd oherwydd yr hinsawdd ariannol (neu'r rhagolwg ariannol) sydd, neu sydd wedi, wynebu'r Cyngor ar unrhyw adeg benodol.

Adeg dod i'r penderfyniad hwn, roedd y Cyngor yn wynebu bwch amcanol yn ei gyllideb ar gyfer 2016/17 o rhwng £23.7 miliwn a £30.8 miliwn.

O ganlyniad i gynnydd gwell na'r disgwyl o ran gwireddu arbedion trwy gamau effeithlonrwydd; setliad ariannol gwell na'r disgwyl ar gyfer 2016/17 gan Lywodraeth Cymru; a rhagolygon o setliadau ariannol llai ymestynnol, fel sydd wedi'i nodi yn Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr Llywodraeth San Steffan ym mis Tachwedd 2015; mae gan y Cyngor fwy o hyblygrwydd ariannol bellach.

Gyda hyn mewn golwg, ac yn dilyn trafodaeth gyda'r Aelodau o'm Cabinet a Charfan yr Uwch Reolwyr, rydw i bellach wedi gwneud y penderfyniad i wrthdroi penderfyniad y Cabinet ar 8 Medi 2015 mewn perthynas â Pholisi Cludo Disgyblion y Cyngor.

Golyga hyn yn nhermau'r flwyddyn ysgol 2016/17 y bydd polisi'r Cyngor yn glwyn â chludo disgyblion i'r ysgol fel sydd wedi'i nodi yn Llyfryn Dechrau'r Ysgol yn parhau'n weithredol. Mae modd ichi'i ddarllen trwy glicio ar y cyswllt isod).

([www.rctcbc.gov.uk/LlyfrynDechrauYsgol16-17](http://www.rctcbc.gov.uk/LlyfrynDechrauYsgol16-17))

Trwy wneud y penderfyniad hwn, rwy'n cydnabod bod angen rhoi rhybudd o'r newid i rieni, cynhalwyr

(gofalwyr) a disgyblion.

Serch hynny, o ystyried yr amgylchiadau sy'n arwain at y penderfyniad hwn a'i oblygiad o ran peidio â chodi tâl ar elfennau 'dewisol' darpariaeth Cludo Disgyblion y Cyngor, rwy o'r farn bod pum mis o rybudd yn ddigonol.

Rwy hefyd wedi gofyn i swyddogion i sicrhau bod yr holl rieni/cynhalwyr/disgyblion hynny a fyddai'n cael eu heffeithio ynhyd â rhanddeiliaid perthnasol eraill yn cael gwybod am y penderfyniad hwn yn fater o frys.

O ganlyniad i'r penderfyniad hwn, bydd angen i'r Cabinet ystyried, a'r Cyngor llawn yntau i benderfynu, yn seiliedig ar adroddiadau a chyngor swyddogion, effaith y penderfyniad ar y gyllideb ar gyfer 2016/17 a sut y gall y Cyngor fynd i'r afael â'r effaith honno a sicrhau bod y gyllideb ar gyfer 2016/17 yn parhau i fod yn fantoledig.

Rhaid i mi bwysleisio y bydd y Cyngor yn parhau i wynebu heriau ariannol yn y dyfodol.

Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i'r Cabinet barhau i ystyried penderfyniadau ynghylch cynnal gwasanaethau yn y dyfodol.

Serch hynny, pan fo cyfle i leddfu effaith penderfyniadau ar ddefnyddwyr gwasanaethau, a'i bod hi'n bosibl gwneud hynny'n ariannol, fel yn achos y penderfyniad hwn yn fy nhŷb, bydd y Cabinet a finnau'n gweithredu yn unol â hynny.

Llofnod yr Arweinydd	Enw (priflythrennau)	<i>Dyddiad</i>
----------------------	----------------------	----------------

Cymerir y penderfyniad yn unol ag Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Swyddogaethau'r Corff Gweithredol) ac yn y cylich gorchwyl a nodir yn Adran 5 o Ran 3 Cyfansoddiad y Cyngor.

---

Dirprwy Arweinydd Y Cynghorydd MONTAGUE ac Aelod Perthnasol o'r  
Cabinet sydd â chyfrifoldeb  
LLOFNOD YR AELOD O'R CABINET YR YMGYNGHORWYD AG EF  
DYDDIAD

---

LLOFNOD Y PRIF WEITHREDWR YR YMGYNGHORWYD AG EF  
DYDDIAD

---

LLOFNOD CYFARWYDDWR CYFADRAN Y GWASANAETHAU  
CORFFORAETHOL A RHENG FLAEN YR YMGYNGHORWYD AG EF  
DYDDIAD